Teitl y gweithgaredd:	Teithio ar y Goets Fawr
Disgrifiad:	Mathemateg yn seiliedig ar siwrne'r Goets Fawr
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Sgìl Rhaglen Astudio posib:	Rhifedd > Defnyddio sgiliau rhif > Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhif
Testun T. Llew Jones	'Y Lleidr Pen-ffordd'
Offer angenrheidiol:	Fideo 'Y Goets Fawr' https://www.youtube.com/watch?v=0jNmCdxJTtY • Taflen 'Taflen Teithio Y Goets Fawr 1' • Taflen 'Taflen Teithio Y Goets Fawr 2'
Trefn a awgrymir:	Atgoffwch y dysgwyr fod cerdd 'Y Lleidr Pen-ffordd' yn sôn am Twm Siôn Cati oedd yn enwog am ddwyn o'r Goets Fawr. Dangoswch y fideo 'Y Goets Fawr' i'r dysgwyr. Esboniwch eu bod yn mynd i wneud problemau mathemategol yn ymwneud â thaith y Goets Fawr. Atgoffwch y dysgwyr i ddarllen y cwestiynau'n ofalus ac i ganolbwyntio ar y ffeithiau pwysig yn y cwestiwn.
Gweithgareddau gwahaniaethol:	Dewiswch y daflen fwyaf addas a'i haddasu os oes angen. Wedi cwblhau'r gweithgaredd, gall y dysgwyr greu eu cwestiynau mathemategol eu hunain yn seiliedig ar siwrne'r Goets Fawr